Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Pencarnisiog
# Pencarnisiog
# Ty Croes
# Ynys Môn
# LL63 5RY

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 07/04/2016**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Pencarnisiog ym mhentref Pencarnisiog sydd tua dwy filltir o Rosneigr, Ynys Môn.  Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal o'i gwmpas.

Ar hyn o bryd, mae 58 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol.  Mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn tri dosbarth cymysg.  Daw tua 96% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg.  Dros y tair blynedd diwethaf, mae oddeutu 9% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru.  Mae tua 36% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na'r cyfartaledd Cymru.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Mehefin 2009.  Dros gyfnod o ddwy flynedd, mae ansefydlogrwydd wedi bod yn arweinyddiaeth yr ysgol.  Mae'r pennaeth dros dro yn ei swydd ers Ionawr 2016.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Pencarnisiog yn 2015-2016 yw £4,073.  Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Fôn yw £6,763 a'r lleiafswm yw £2,889.  Mae Ysgol Gynradd Pencarnisiog yn y 33ain safle o'r 47 ysgol gynradd yn Sir Fôn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- perfformiad yr ysgol mewn llythrennedd ar y deilliant uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn gyson yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg
- rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg
- llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio uwch fedrau darllen yn dda i gywain gwybodaeth
- disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at fyw, bwyta ac yfed yn iach
- athrawon yn cynllunio profiadau ysgogol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda
- cydweithio effeithiol rhwng athrawon a chymorthyddion, sy'n darparu cefnogaeth bwrpasol i unigolion a grwpiau penodol o ddysgwyr

Fodd bynnag:

- Mae strwythur brawddegau ysgrifenedig ychydig o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn wan
- Mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae lefelau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg
- Nid yw cynlluniau'r ysgol yn rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gymhwyso'u medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ystod eang o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm
- Nid yw cynlluniau'r ysgol yn sicrhau bod maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol yn cael ei weithredu'n llawn
- Mae gor-arwain gan athrawon yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol ac i arwain eu dysgu eu hunain

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- y pennaeth mewn gofal wedi rhannu gweledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol gyda staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni
- y pennaeth mewn gofal wedi rhoi nifer o strategaethau cadarn ar waith mewn amser byr, ac wedi llwyddo i greu ethos o gydweithio fel tîm ymysg y staff
- cyfarfodydd staff diweddar yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella
- adroddiadau monitro diweddar y pennaeth mewn gofal yn ddadansoddol ac arfarnol, ac yn nodi'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu yn glir

Fodd bynnag:

- Nid yw arweinwyr wedi mynd i'r afael â'r diffygion yn y cynlluniau gwaith
- Dros gyfnod o amser, nid yw'r corff llywodraethol wedi cyfrannu'n ddigon effeithiol at bennu cyfeiriad strategol i waith yr ysgol

- Nid yw'r corff llywodraethol yn monitro'r gyllideb yn ddigon effeithiol nac yn mesur effaith gwariant yn ddigon manwl.

## Argymhellion

A1 Codi safonau ysgrifennu yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2

A2 Gwella presenoldeb disgyblion

A3 Sicrhau bod cynlluniau gwaith yn ymateb yn llawn i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur ar gyfer addysg grefyddol

A4 Cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithredu'n annibynnol er mwyn iddynt gymryd rôl lawn yn eu dysgu eu hunain

A5 Cryfhau rôl y llywodraethwyr fel eu bod yn gweithredu'n fwy strategol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae medrau sylfaenol disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn amrywiol. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer yn gwneud cynnydd da. Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol ac yn datrys problemau'n effeithiol trwy ddefnyddio eu medrau meddwl. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ac yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg, gan ddefnyddio geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf yn sgwrsio'n hyderus am eu profiadau a'u diddordebau, gan ddefnyddio ystod gynyddol o eiriau priodol. Enghraifft o hyn yw disgyblion yn trafod eu gwaith yn seiliedig ar thema'r Arctig. Caiff medrau llafar y disgyblion yn y ddwy iaith eu datblygu'n dda yng nghyfnod allweddol 2. Erbyn diwedd y cyfnod, gall llawer sgwrsio'n naturiol a rhugl am amrywiaeth o bynciau mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Enghraifft o hyn yw wrth drafod eu hymchwiliad gwyddonol ar grymoedd.

Ar frig y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn ystyrlon a chyda dealltwriaeth gadarn o'r testun, gan newid goslef llais yn effeithiol er mwyn dal sylw'r gwrandawyr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda yn y ddwy iaith. Mae llawer yn darllen yn rhugl gan dalu sylw priodol i'r atalnodi. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn trafod cynnwys y stori'n fanwl, gan fynegi barn yn hyderus am eu hoff gymeriad. Ar draws y cyfnod, mae llawer yn defnyddio uwch fedrau darllen yn dda wrth gywain gwybodaeth am bwnc arbennig, er enghraifft yn eu gwaith ar Batagonia.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n briodol mewn amrywiaeth o ffurfiau, gan ddefnyddio strwythur brawddegau cadarn ac atalnodi sylfaenol. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn defnyddio ffurf gryno'r ferf yn gyson a geirfa eang i gyfoethogi eu gwaith,er enghraifft wrth ysgrifennu hunanbortread a dyddiadur. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddeallus i wahanol ddibenion yn y ddwy iaith, gan ddangos ymwybyddiaeth briodol o'r gwahanol ffurfiau. Mae llawer yn defnyddio ystod addas o frawddegau, ac yn atalnodi eu gwaith yn effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn ysgrifennu'n estynedig yn y ddwy iaith. Enghraifft o hyn yw llythyr ffurfiol at Gyngor Lerpwl yn dwyn perswâd i beidio boddi Cwm Celyn a bywgraffiadur yn Saesneg yn seiliedig ar un o enwogion y 60au. Fodd bynnag, ar brydiau, mae strwythur brawddegau ychydig o ddisgyblion yn aneglur. Yn gyffredinol, maent yn dibynnu gormod ar fframiau ysgrifennu, gan gyfyngu gallu ychydig o ddisgyblion i ysgrifennu'n annibynnol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn dda mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn datrys problemau rhif yn llwyddiannus, yn defnyddio unedau mesur priodol, yn casglu a chofnodi data mewn ffurf graff bar ac yn defnyddio arian mewn sefyllfa

pob dydd. Er enghraifft, gallant gymhwyso'u medrau rhif yn dda i gyfri cyfanswm ac elw ar gyfer eu prosiect mentergarwch. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau i ddatrys problemau rhifedd yn llwyddiannus. Maent yn dadansoddi data, datrys problemau ffracsiynau a chanrannau, yn ogystal â mesur cynhwysedd ac arwynebedd yn briodol. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn effeithiol mewn gwersi mathemateg, er enghraifft i fesur a chostio carped ar gyfer yr ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon cyson ar draws ystod o bynciau.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gan yr ysgol yn aml. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Mae perfformiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y deilliannau disgwyliedig mewn llythrennedd a datblygiad mathemateg wedi amrywio o'r 25% uchaf i'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf. Ar ddiwedd cyfnod allweddol2, mae perfformiad ar y lefelau disgwyliedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn gyson yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn Cymraeg wedi bod uwchlaw'r canolrif, tra mae perfformiad mewn Saesneg wedi amrywio.

Ar y deilliant uwch, dros gyfnod o bedair blynedd mae perfformiad yr ysgol mewn llythrennedd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn gyson yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg, tra mae perfformiad mewn datblygiad mathemategol wedi amrywio o'r 25% uchaf i'r 25% isaf. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel uwch yn gyffredinol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is ymhob pwnc craidd o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae tuedd o welliant yng nghanran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefelau uwch mewn Cymraeg a Saesneg dros y pedair blynedd diwethaf.

Yn gyffredinol, mae merched yn perfformio'n well na'r bechgyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ar y lefelau uwch mewn iaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn isel, felly nid yw cymariaethau o'u perfformiad yn erbyn perfformiad disgyblion eraill yn ddibynadwy.

**Lles: Digonol**

Mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at fyw, bwyta ac yfed yn iach. Maent yn ymgymryd â gwahanol weithgareddau corfforol, sy'n cyfrannu'n dda tuag at eu lles. Mae bron bob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Fodd bynnag, mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae lefelau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar draws yr ysgol, mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Maent yn ofalus iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill yn y gwersi ac o amgylch yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith ac maent yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn gweithredu'n ddigon annibynnol nac yn arwain eu dysgu yn ddigon llwyddiannus.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn grŵp brwdfrydig o ddisgyblion. Maent yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill. Maent yn dechrau lleisio eu barn am faterion yn ymwneud â'r ysgol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cymryd rôl ddigon gweithredol ym mhenderfyniadau'r ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith sydd ar y cyfan yn ymateb yn briodol i ofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r ysgol wrthi'n addasu ei chynlluniau gwaith. O ganlyniad, nid yw'r cynlluniau cyfredol bob amser yn sicrhau bod holl agweddau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur addysg grefyddol yn cael eu gweithredu'n llawn. Er enghraifft, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh ar draws y cwricwlwm.

Mae cynlluniau gwaith yr ysgol yn sicrhau amrediad buddiol o weithgareddau sy'n gyffredinol yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau meddwl y disgyblion yn briodol. Mae athrawon yn cynllunio'n gadarn ar gyfer datblygu medrau rhif disgyblion mewn gwersi mathemateg. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau'n rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gymhwyso'u medrau rhifedd mewn ystod eang o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

Mae darpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o iaith a diwylliant Cymru yn gadarn. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau fel yr eisteddfod ac wrth astudio gwaith Kyffin Williams, er mwyn cyfoethogi eu profiadau. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u diwylliant a'u hardal leol yn dda.

Mae'r ysgol yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddatblygu gwybodaeth y disgyblion am faterion dinasyddiaeth fyd-eang trwy waith thema'r dosbarthiadau. Enghraifft o hyn yw disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cymharu bywyd ym Mhencarnisiog â Qaanaaq yn yr Ynys Las. Mae'r cyngor eco yn cyfrannu'n effeithiol tuag at leihau gwastraff, er enghraifft trwy ailgylchu papur, batris a chaniau. O ganlyniad, mae dealltwriaeth llawer o ddisgyblion o bwysigrwydd gofalu am y byd ehangach yn datblygu'n briodol. Mae disgyblion yn cael profiadau buddiol i gefnogi plant a phobl llai ffodus trwy gasgliad ariannol neu gasgliad bwydydd ar gyfer banc bwyd lleol.

**Addysgu: Digonol**

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio profiadau sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Lle mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae pwyslais clir ar gyflwyno cwricwlwm ymarferol, sy'n ennyn awydd i ddysgu ymysg y disgyblion. Mae cydweithio effeithiol rhwng athrawon a chymorthyddion, sy'n darparu cefnogaeth bwrpasol i unigolion a grwpiau penodol o ddysgwyr. Mae hyn yn sicrhau bod llawer o

ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn y gwersi. Mae staff yn modelu iaith glir a chywir, sy'n cyfrannu'n dda at safonau llafar y disgyblion. Yn yr ychydig iawn o enghreifftiau lle mae addysgu'n llai effeithiol, mae gor-arwain gan athrawon yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol ac i gymryd rôl lawn yn eu dysgu eu hunain.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar waith, ond anghyson yw'r defnydd ohonynt ar draws yr ysgol. Caiff amcanion dysgu addas eu rhannu'n briodol gyda'r disgyblion ar ddechrau'r wers, ond nid ydynt bob amser yn ddigon penodol nac yn ymateb yn llawn i ofynion y dasg. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac mae gan y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r côd marcio. Yn gyffredinol, mae sylwadau'r athrawon yn adeiladol ac yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod yr hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod briodol o ddeunyddiau asesu a phrofion safonol i asesu datblygiad disgyblion, ac yn defnyddio system electronig yn addas i olrhain eu cynnydd. Er hynny, nid yw arweinwyr/athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o hyn yn ddigon effeithiol i olrhain cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys sylwadau gwerthfawr ar gynnydd eu plentyn ynghyd â thargedau addas er mwyn gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach trwy amrywiaeth o weithgareddau mewnol ac allgyrsiol, gan gynnwys clwb pêl-droed a phêl-rwyd.

Mae'r cyfnodau o gyd-addoli yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn effeithiol drwy gadw siartiau gwobrwyo unigol a phwyntiau tai, ynghyd â 'seren yr wythnos'. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn hyn ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'u hymddygiad.

Er bod presenoldeb disgyblion yn cael sylw haeddiannol yng nghynlluniau'r ysgol, dros gyfnod o amser, nid yw strategaethau a roddwyd ar waith wedi cael digon o effaith.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithlon ag ystod o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol, fel y seicolegydd addysg a nyrs yr ysgol. Mae'r cysylltiadau hyn yn sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd da i ddisgyblion, staff a rhieni.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sydd wedi datblygu'n fwy effeithiol yn ddiweddar. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau priodol i adnabod anghenion y disgyblion, gan gynnwys profion darllen a rhifedd, ynghyd â'u barn broffesiynol. Mae disgyblion ac athrawon yn cydweithio'n briodol ar y cynlluniau addysg unigol. Mae cynlluniau unigol diweddar yn fwy penodol a'r targedau yn fwy miniog. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n gyson mewn ymgynghoriad â'r rhieni. Mae hyn yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol lle caiff pob disgybl fynediad cyfartal i'r gweithgareddau a drefnir ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid yw holl bolisïau'r ysgol yn ddigon manwl ac nid ydynt yn adlewyrchu sefyllfa'r ysgol yn llawn. Mae pwyslais mawr ar feithrin parch tuag at gyfoedion ac ymwelwyr o fewn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r adeilad a thir yr ysgol sy'n annog y disgyblion i gadw'n iach a gwerthfawrogi'r amgylchedd o'u cwmpas. Mae'r adeilad yn ddeniadol ac yn darparu amgylchedd ysgogol i ddisgyblion. Mae gan yr ysgol gyflenwad addas o adnoddau ar gyfer gwersi ac mae staff yn eu defnyddio'n briodol i atgyfnerthu'r dysgu. Fodd bynnag, nid ardaloedd allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn ddigon symbylus nac wedi datblygu'n llawn.

Mae arddangosfeydd yn yr ystafelloedd ac ar hyd y coridorau yn dathlu gwaith y disgyblion yn llwyddiannus.

Caiff y safle a'r adeilad eu cynnal a'u cadw'n lan a thaclus.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Dros gyfnod o amser, mae arweinyddiaeth yr ysgol wedi bod yn ansefydlog. Mae'r pennaeth mewn gofal wedi rhannu gweledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol gyda staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni yn ddiweddar. O fewn amser byr, mae wedi rhoi nifer o strategaethau cadarn ar waith ac mae wedi llwyddo i greu ethos o gydweithio fel tîm ymysg staff. Mae wedi gosod prosesau cadarn yn eu lle yn seiliedig ar godi safonau a lles disgyblion. Mae'r pennaeth mewn gofal wedi dechrau monitro'r prosesau hyn yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith llawn y prosesau diweddar hyn ar safonau'r ysgol.

Mae swydd disgrifiadau yn nodi cyfrifoldebau'n glir ac yn manteisio ar arbenigeddau'n staff yn effeithiol. Mae'r holl staff yn cyflawni eu rolau yn briodol mewn perthynas uniongyrchol â chynlluniau a chyfeiriad strategol yr ysgol. Mae cofnodion cyfarfodydd staff diweddar yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella. O ganlyniad, mae staff yn ymwybodol o gryfderau'r ysgol a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn sicrhau gwelliant.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr yr ysgol wedi gosod nifer o strategaethau newydd ar waith er mwyn codi safonau a gwella darpariaeth. Mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae defnydd o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn datblygu'n addas ac mae'r ysgol yn rhoi sylw dyledus i fynd i'r afael ag amddifadedd disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i waith yr ysgol, ac mae ganddynt wybodaeth gadarn am berfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn ddiweddar, maent yn ymgymryd â gweithgareddau monitro. Mae hyn yn cryfhau eu gwybodaeth am safonau a blaenoriaethau'r ysgol yn briodol. Fodd bynnag, dros gyfnod, nid yw'r is-bwyllgorau wedi ymgymryd â'u cyfrifoldebau'n ddigon effeithiol er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion yn y ddarpariaeth. Dros gyfnod o amser, nid yw'r corff llywodraethol wedi cyfrannu'n ddigon effeithiol at bennu cyfeiriad strategol i waith yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r adroddiad hunanarfarnu diweddaraf yn rhoi darlun cytbwys o fywyd a gwaith yr ysgol. Ar y cyfan, mae'n arfarnol, gan nodi cryfderau ac agweddau priodol i'w datblygu yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'n seiliedig ar ystod addas o dystiolaeth, gan gynnwys monitro gwersi, craffu ar waith disgyblion a dadansoddiad manwl o ddata. Mae arweinwyr yn defnyddio adroddiadau monitro swyddogion yr awdurdod lleol a'r consortiwm i gefnogi'r gweithdrefnau hyn yn briodol.

Mae adroddiadau monitro diweddar y pennaeth mewn gofal yn ddadansoddol ac arfarnol, ac yn nodi'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu yn llwyddiannus. Mae canfyddiadau'r broses o arsylwi ar wersi a chraffu ar lyfrau ar y cyd yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd staff. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y staff o safonau'r ysgol yn dda. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith lawn y gweithdrefnau hyn ar safonau. Nid oes digon o effaith hyd yma o ran mynd i'r afael â'r anghysondeb mewn agweddau o'r ddarpariaeth.

Yn gyffredinol, mae cyswllt agos rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n glir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae'n cynnwys strategaethau priodol ar gyfer gweithredu, ynghyd â meini prawf llwyddiant addas a threfniadau monitro. Mae'r defnydd o dargedau mesuradwy yn sicrhau bod arweinwyr yn medru adolygu'r cynnydd yn effeithiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau llwyddiannus sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a phrofiadau dysgu disgyblion. Mae rhieni'n derbyn gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd a thargedau eu plant yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cymryd rôl weithredol yn addysg eu plant. Mae'r gymdeithas cyfeillion yr ysgol yn cefnogi'r ysgol yn dda trwy godi arian ar gyfer prynu adnoddau gwerthfawr a chyfrannu at gostau ymweliadau addysgol.

Mae partneriaeth lwyddiannus gydag asiantaethau arbenigol a'r awdurdod lleol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â chylch meithrin sydd ar safle'r ysgol. Maent yn rhannu adnoddau yn effeithiol ac yn trefnu digwyddiadau ar y cyd er mwyn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n fuan yn y dosbarth meithrin. Enghraifft o hyn yw'r modd maent yn trefnu ymweliadau addysgol a chynnal mabolgampau ar y cyd. Trwy ymweliadau â'r ysgol uwchradd a gweithdai drama, mae trefniadau pontio yn effeithiol. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion hŷn i baratoi'n addas ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae’r athrawon yn cydweithio’n addas ag ysgolion y dalgylch a'r ysgol uwchradd. Mae hyn yn galluogi staff i gydweithio’n effeithiol i safoni gwaith disgyblion a sicrhau cywirdeb eu hasesiadau ac wrth baratoi adnoddau dysgu gwerthfawr.

Mae partneriaeth gadarn rhwng yr ysgol a’r gymuned leol yn cyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion yn llwyddiannus. Mae cyfraniad ymwelwyr a ddaw i’r ysgol yn cyfoethogi’r profiadau dysgu yn effeithiol. Er enghraifft, mae aelod o’r gymuned yn hyfforddi clwb pêl droed yr ysgol sy’n hyrwyddo iechyd a ffitrwydd disgyblion yn dda.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol gyflenwad addas o athrawon a chynorthwywyr dosbarth i ymdrin â phob agwedd o’r cwricwlwm. Mae camau penodol wedi eu cymryd yn ddiweddar i ailstrwythuro staffio i gyfateb yn well i anghenion yr ysgol. Defnyddir arbenigedd athrawon i gyfoethogi agweddau penodol fel addysg gorfforol.

Mae'r prosesau ar gyfer rheoli perfformiad yr holl staff yn arwain at bennu targedau priodol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau gwella'r ysgol a’u datblygiad proffesiynol. Mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Defnyddia’r athrawon eu cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol i godi safonau.

Mae’r ysgol yn gweithio’n addas o fewn rhwydweithiau dysgu, sy’n cyfrannu’n briodol at gyfoethogi darpariaeth yr ysgol. Er enghraifft, mae athrawon yn cyfrannu’n fuddiol i rwydwaith o ysgolion cynradd ac uwchradd i ddatblygu medrau darllen disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau llythrennedd disgyblion.

Mae’r pennaeth mewn gofal yn cydweithio’n effeithiol gyda swyddog cyllid yr awdurdod i reoli’r cyllid yn briodol. Yn gyffredinol, mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu’n addas â blaenoriaethau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw’r is-bwyllgor cyllid yn monitro’r gyllideb yn ddigon cyson nac yn cadw cofnodion digon manwl o wariant.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd priodol o’r grant amddifadedd i ddatblygu lles disgyblion drwy gyflogi cymhorthydd i gefnogi unigolion a grwpiau penodol o ddysgwyr. Caiff y gwariant ei fonitro’n ofalus gan arweinwyr yr ysgol. O ganlyniad, mae’r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6602160 - Ysgol Pencarnisiog**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 53 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 10.2 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 7 | 6 | 6 | 10 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 85.7 | 100.0 | 66.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 4 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 6 | 6 | 10 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 85.7 | 100.0 | 83.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 42.9 | 66.7 | 50.0 | 60.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 6 | 6 | 10 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 85.7 | 100.0 | 66.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 28.6 | 66.7 | 16.7 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 4 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 6 | 6 | 10 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 85.7 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 57.1 | 66.7 | 33.3 | 70.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6602160 - Ysgol Pencarnisiog**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 53 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 10.2 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 11 | 10 | * | 8 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 90.9 | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | * | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 10 | * | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.9 | 100.0 | * | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | * | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 10 | * | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.9 | 90.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 10 | * | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 70.0 | * | * |
| Chwartel meincnod | * | 1 | * | * |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 10 | * | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 50.0 | * | * |
| Chwartel meincnod | * | 1 | * | * |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 28 | 28 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 28 | 26 | 2 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 28 | 28 | 0 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 27 | 26 | 1 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 96% | 4% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 27 | 26 | 1 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 26 | 26 | 0 | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 28 | 28 | 0 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 28 | 28 | 0 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 28 | 28 | 0 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 27 | 25 | 2 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 27 | 27 | 0 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 28 | 27 | 1 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 96% | 4% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 12 | 4<br>33% | 7<br>58% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 12 | 9<br>75% | 3<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 12 | 8<br>67% | 4<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 12 | 6<br>50% | 5<br>42% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 12 | 4<br>33% | 7<br>58% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 12 | 5<br>42% | 7<br>58% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 12 | 7<br>58% | 4<br>33% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 12 | 4<br>33% | 6<br>50% | 1<br>8% | 1<br>8% | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 11 | 8<br>73% | 2<br>18% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 12 | 7<br>58% | 5<br>42% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 12 | 8<br>67% | 3<br>25% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 31% | 1% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 11 | 8<br>73% | 2<br>18% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 12 | 6<br>50% | 4<br>33% | 2<br>17% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 10 | 8<br>80% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 12 | 6<br>50% | 5<br>42% | 0<br>0% | 1<br>8% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 12 | 8<br>67% | 3<br>25% | 0<br>0% | 1<br>8% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 9 | 5<br>56% | 4<br>44% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 6<br>60% | 4<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 11 | 3<br>27% | 7<br>64% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Kevin Davies | Arolygydd Tîm |
| Jeffrey Davies | Arolygydd Lleyg |
| Nia Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhian Dargie Hughes | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.